



YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:

76/2024

DYDDIAD CYHOEDDI:

07/11/2024

Tai Digonol i rentwyr yng Nghymru: Agweddau'r Cyhoedd

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Tai Digonol i rentwyr yng Nghymru: Agweddau'r Cyhoedd

Rebecca Askew, Llywodraeth Cymru

Adroddiad Ymchwil Llawn: Askew, Rebecca. (2024). *Tai Digonol i rentwyr yng Nghymru: Agweddau'r Cyhoedd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 76/2024

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/tai-digonol-i-rentwyr-yng-nghymru-agweddaur-cyhoedd>

Casglwyd y data gan Beaufort Research Ltd

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Rebecca Askew

Adran: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: TîmYmchwilTai@llyw.cymru

Tabl cynnwys

1.	Cyflwyniad ac amcanion.....	4
2.	Methodoleg	6
3.	Canfyddiadau Ymchwil.....	8
	Proffil tai ymatebwyr.....	8
	Nodweddion tai	8
	Rhent a newidiadau mewn rhent.....	12
	Bodddhad â mesurau digonolrwydd.....	16
	Bodddhad ag eiddo rhent a gwella eiddo rhent.....	18
	Cynlluniau ar gyfer tai yn y dyfodol	21
	Cynrychioli barn tenantiaid.....	24
4.	Crynodeb.....	27
	Atodiad A - Holiadur yr Arolwg a ddefnyddiwyd yn Omnibws Beaufort Mehefin 2023	28

Rhestr o ffigurau

Ffigur 3.1: Math o denantiaeth eich meddiannaeth bresennol – ‘A yw eich cartref...?’	8
Ffigur 3.2: Hyd yr amser yn yr eiddo presennol – ‘Ers faint rydych yn byw yn eich cartref rhent presennol?’	9
Ffigur 3.3: Hyd yr amser yn yr eiddo presennol yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘Ers faint rydych yn byw yn eich cartref rhent presennol?’	10
Ffigur 3.4: Hyd yr amser i ddod o hyd i'ch eiddo presennol – ‘Tua faint o amser a gymerodd i chi ddod o hyd i'ch cartref rhent presennol, o'r adeg y gwnaethoch ddechrau chwilio i'r adeg y gwnaethoch lofnodi'r cytundeb tenantiaeth?’	10
Ffigur 3.5: Hyd yr amser i ddod o hyd i'ch eiddo presennol yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘Tua faint o amser a gymerodd i chi ddod o hyd i'ch cartref rhent presennol, o'r adeg y gwnaethoch ddechrau chwilio i'r adeg y gwnaethoch lofnodi'r cytundeb tenantiaeth?’	11
Ffigur 3.6: Nifer yr ystafelloedd gwely yn yr eiddo rhent – ‘Faint o ystafelloedd gwely sydd gennych yn eich cartref rhent?’	11
Ffigur 3.7: Nifer yr ystafelloedd gwely yn yr eiddo yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘Faint o ystafelloedd gwely sydd gennych yn eich cartref rhent?’	12
Ffigur 3.8: Rhent a delir bob mis – ‘Faint o rent rydych yn ei dalu bob mis?’	13
Ffigur 3.9: Rhent a delir bob mis yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘Faint o rent rydych yn ei dalu bob mis?’	14
Ffigur 3.10: Biliau wedi'u cynnwys yn y rhent – ‘A yw eich biliau wedi'u cynnwys yng nghyfanswm y rhent?’	14
Ffigur 3.11: Biliau wedi'u cynnwys yn y rhent yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘A yw eich biliau wedi'u cynnwys yng nghyfanswm y rhent?’	15
Ffigur 3.12: Faint o gynnydd sydd wedi bod yn eich rhent ers 2020, os o gwbl?	15
Ffigur 3.13: Codiad rhent yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘Faint o gynnydd fu yn eich rhent ers 2020, os o gwbl?’	16
Ffigur 3.14: Boddhad â mesurau digonolrwydd – ‘Pa mor fodlon ydych chi ar bob un o'r agweddau canlynol ar eich cartref rhent presennol?’	17
Ffigur 3.15: Boddhad â'r eiddo rhent – ‘Pa mor fodlon ydych chi ar bob un o'r agweddau canlynol ar eich cartref rhent presennol?’	19
Ffigur 3.16: Boddhad â'r eiddo rhent yn ôl math o ddeiliadaeth ‘Pa mor fodlon ydych chi ar ansawdd eich llety rhent presennol?’	19
Ffigur 3.17: Y brif agwedd i'w gwella – ‘Beth yw'r brif agwedd ar eich cartref rhent presennol yr hoffech ei gweld yn cael ei gwella, os oes un?’	20

Ffigur 3.18: Y brif agwedd i'w gwella yn eich cartref rhent presennol yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘Beth yw'r brif agwedd ar eich cartref rhent presennol yr hoffech ei gweld yn cael ei gwella, os oes un?’	20
Ffigur 3.19: Y tebygolrwydd o aros yn yr eiddo presennol - ‘Pa mor debygol ydych chi o aros yn eich eiddo presennol yn y flwyddyn nesaf?’	22
Ffigur 3.20: Y tebygolrwydd o aros yn yr eiddo presennol yn ôl math o ddeiliadaeth - ‘Pa mor debygol ydych chi o aros yn eich eiddo presennol yn y flwyddyn nesaf?’	22
Ffigur 3.21: Awydd i brynu cartref yn y tair blynedd nesaf – ‘Ydych chi'n gobeithio prynu eich cartref eich hun yn y tair blynedd nesaf?’	23
Ffigur 3.22: Awydd i brynu cartref yn y tair blynedd nesaf yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘Ydych chi'n gobeithio prynu eich cartref eich hun yn y tair blynedd nesaf?’	23
Ffigur 3.23: Materion a godwyd gyda'r landlord – ‘Pa mor fodlon ydych chi ar ba mor gyflym yr ymdriniwyd ag unrhyw faterion a godwyd gyda'ch landlord neu'ch asiant gosod eiddo (os yw'n gymwys)?’	25
Ffigur 3.24: Materion a godwyd gyda'r landlord yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘Pa mor fodlon ydych chi ar ba mor gyflym yr ymdriniwyd ag unrhyw faterion a godwyd gyda'ch landlord neu'ch asiant gosod eiddo (os yw'n gymwys)?’	25
Ffigur 3.26: Cynrychioli barn tenantiaid o fewn Llywodraeth Cymru/Awdurdodau Lleol/Sefydliadau Tai yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘Fel tenant, pa mor fodlon ydych chi bod barn tenantiaid ar rentu a thai yn cael ei chyfleu'n briodol i Lywodraeth Cymru/Awdurdodau Lleol/Sefydliadau Tai?’	26

1. Cyflwyniad ac amcanion

- 1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y dylai pawb yng Nghymru allu cael cartref diogel a fforddiadwy sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r gallu i alw rhywle yn gartref yn rhoi sicrwydd, hunaniaeth ac ymdeimlad o berthyn i gymuned.
- 1.2 Mae mynediad at dai digonol yn galluogi pobl i ymwreiddio a ffynnu, boed hynny yn nhermau swyddi, addysg, magu teuluoedd neu symud i le newydd i fyw ar ôl ymddeol. Er mwyn i bobl gael tai digonol, dylai cartrefi fod yn fforddiadwy, o ansawdd boddhaol ac yn ddiogel rhag peryglon. Dylent hefyd fod wedi'u lleoli mewn lleoedd â seilwaith lleol da, megis mynediad at wasanaethau iechyd, addysg, swyddi, cludiant a gwasanaethau cymdeithasol a chymunedol.
- 1.3 Mae darparu tai digonol yng Nghymru yn cyfrannu at gynllun datblygu Llywodraeth Cymru, Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040¹ sy'n ystyried mai tai fforddiadwy o ansawdd da yw conglafaen cymunedau
- 1.4 Yng Nghymru, mae amrywiaeth o fecanweithiau polisi a deddfwriaeth sy'n diffinio agweddau ar yr hyn a allai gael ei ystyried yn ffactorau tai digonol yng nghyd-destun Cymru. Er enghraifft, mae Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2020² yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i landlordiaid ei wneud er mwyn sicrhau bod eu heiddo mewn cyflwr da ac yn ffit i fod yn gartref.
- 1.5 Er nad oes unrhyw ddiffiniad y cytunwyd arno yn y DU, mae'r Cenhedloedd Unedig yn nodi saith maen prawf y dylid eu bodloni, yn eu barn nhw, er mwyn i lety gael ei ystyried yn 'gartref digonol',³ sef:
- *Diogelwch deiliadaeth*: nid yw tai yn ddigonol os nad oes gan y sawl sy'n eu meddiannu rywffaint o ddiogelwch deiliadaeth sy'n gwarantu gwarchodaeth gyfreithiol rhag troi allan drwy rym, aflonyddu a bygythiadau eraill;
 - *Argaeledd gwasanaethau, deunyddiau, cyfleusterau a seilwaith*: nid yw tai yn ddigonol os nad oes gan y sawl sy'n eu meddiannu ddŵr yfed diogel, cyfleusterau glanweithdra digonol, ynni i goginio, gwres, goleuadau a chyfleusterau storio bwyd neu waredu sbwriel;

¹ [Cymru'r Dyfodol, Y Cynllun Cenedlaethol 2040](#)

² [Ffitrwydd tai i fod yn gartref: canllawiau i landlordiaid](#)

³ [Yr hawl i gael tai digonol | OHCHR](#)

- *Fforddiadwyedd*: nid yw tai yn ddigonol os bydd cost tai yn peryglu neu'n tanseilio mwynhad y meddianwyr o hawliau dynol eraill (e.e. bwyd).
- *Cyfaneddoldeb*: nid yw tai yn ddigonol os nad ydynt yn gwarantu diogelwch corfforol nac yn darparu digon o le, yn ogystal ag amddiffyn y sawl sy'n eu meddiannu rhag yr oerfel, lleithder, gwres, glaw, y gwynt a bygythiadau eraill i iechyd a pheryglon strwythurol;
- *Hygyrchedd*: nid yw tai yn ddigonol os nad yw anghenion penodol grwpiau difreintiedig ac wedi'u hymyleiddio yn cael eu hystyried;
- *Lleoliad*: nid yw tai yn ddigonol os ydynt wedi'u hynysu oddi wrth gyfleoedd gwaith a gwasanaethau (gan gynnwys gwasanaethau gofal iechyd, ysgolion, canolfannau gofal pant a chyfleusterau cymdeithasol eraill neu os ydynt wedi'u lleoli mewn ardaloedd llygredig neu beryglus;
- *Annigonolrwydd diwylliannol*: nid yw tai yn ddigonol os nad ydynt yn parchu nac yn ystyried mynegiant hunaniaeth ddiwylliannol yn y ffordd y caiff tai eu dylunio.

- 1.6 Nododd Llywodraeth Cymru fod angen casglu rhagor o wybodaeth am farn rhentwyr yng Nghymru mewn perthynas ag amrywiaeth o ffactorau sy'n ymwneud â thai digonol, megis boddhad rhentwyr â pha mor gyflym yr ymdriniodd eu landlord â phroblemau a'u boddhad â sut roedd eu heiddo yn bodloni mesurau digonolrwydd.
- 1.7 Felly, comisiynwyd Beaufort Research gan Lywodraeth Cymru i gynnal arolwg cynrychioliadol o agweddau tenantiaid at ddigonolrwydd tai yng Nghymru, gan ddefnyddio Omnibws Cymru Mehefin 2023.
- 1.8 Nodau'r astudiaeth oedd meithrin dealltwriaeth well o agweddau tenantiaid tuag at dai digonol a rhentu yng Nghymru, eu dealltwriaeth o'r maes hwn a'u hymgysylltiad ag ef. Defnyddiwyd y canlyniadau i lunio polisi, ymchwil a gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r Papur Gwyn ar gyfer tai digonol a rhenti teg.⁴

⁴ [Datganiad Ysgrifenedig: Lansio Papur Gwyrdd yn Galw am Dystiolaeth ar Ddigonolrwydd Tai a Rhenti Teg \(6 Mehefin 2023\)](#)

2. Methodoleg

- 2.1 Cynhaliwyd yr arolwg ar Omnibws Cymru Beaufort, sy'n cyfweld â sampl gynrychioliadol o 1,000 o oedolion ledled Cymru ym mhob cam. Cynhelir arolygon bum gwaith y flwyddyn – mis Ionawr, mis Mawrth, mis Mehefin, mis Medi a mis Tachwedd⁵. Caiff set wahanol o oedolion eu cyfweld ym mhob cam er bod samplau yn cael eu paru o ran nodweddion demograffig allweddol.
- 2.2 Cynhaliwyd gwaith maes rhwng 5 Mehefin a 25 Mehefin 2023. Cafodd cyfanswm o 1,000 o gyfweiliadau eu cwblhau a'u dadansoddi. Roedd ychydig o dan ddwy ran o dair (61 y cant) o'r 1,000 o ymatebwyr yn berchen neu'n rhannol berchen ar eu cartref; roedd ychydig dros draean (36 y cant) a arolygwyd yn rhentu gan landlord preifat, y cyngor neu gymdeithas dai.
- 2.3 Mae'r adroddiad hwn ond yn canolbwyntio ar yr ymatebwyr sy'n rhentu eu heiddo mewn rhyw ffordd ar hyn o bryd (358 o ymatebwyr).
- 2.4 Cynhelir arolygon ar-lein gan ddefnyddio llwyfan cyfnewid panel ar-lein Cint™. Mae nifer o wiriadau ansawdd data⁶ wedi'u hymgorffori yn system Cint™ ac mae Beaufort yn ymgorffori ei gwestiynau a'i fesurau rheoli ansawdd ei hun yn yr arolwg ac yn hepgor ymatebwyr sy'n methu'r gwiriadau hyn.
- 2.5 Roedd yr arolwg yn ddarostyngedig i reolaethau cwota demograffig cydgysylltiedig⁷ ar gyfer oedran o fewn rhywedd. Gosodwyd rheolaeth gwota ar wahân bellach⁸ ar radd gymdeithasol a chynhaliwyd cyfweiliadau â thrigolion ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r cwotâu hyn yn ei gwneud yn bosibl i Arolwg Omnibws Cymru ddefnyddio'r dull samplu cwota cymesur (nid hapsamplu) i adlewyrchu demograffeg allweddol ym mhoblogaeth Cymru. Serch hynny, mae unrhyw ganfyddiadau yn yr arolwg hwn yn adlewyrchu barn y sampl a dylid bod yn ofalus wrth drosi unrhyw ganfyddiadau i'r boblogaeth ehangach yng Nghymru.

⁵ [Omnibws Cymru – BeaufortResearch](#)

⁶Diben y gwiriadau hyn yw sicrhau mai pobl go iawn sy'n ateb cwestiynau'r arolwg, er mwyn atal ymatebion dyblyg a sicrhau bod sylw digonol yn cael ei roi i gwestiynau er mwyn darparu data o ansawdd uchel

⁷ Mae rheolaethau cwota demograffig cydgysylltiedig yn golygu bod y targed yn cynnwys dau newidyn, sef: grŵp oedran o fewn rhywedd.

⁸ Rheolaethau cwota yw niferoedd cwota o gyfweiliadau a bennir ar gyfer grwpiau demograffig penodol yn y boblogaeth, er mwyn helpu i sicrhau sampl gynrychioliadol o'r arolwg.

- 2.6 Ar y cam dadansoddi, cafodd y data eu pwysoli yn ôl grŵp oedran, rhywedd, grwpiau awdurdodau lleol a gradd gymdeithasol⁹. Mae hyn yn sicrhau bod y sampl yn adlewyrchu ffigurau Cyfrifiad 2021 a nodweddion poblogaeth Cymru.
- 2.7 Darparwyd cwestiynau drafft ar gyfer yr arolwg tai rhent digonol gan Lywodraeth Cymru. Penderfynwyd yn derfynol ar gwestiynau'r arolwg yn dilyn trafodaethau â Beaufort (gweler Atodiad A am yr holiadur).
- 2.8 Roedd y mwyafrif o'r cwestiynau a ofynnwyd yn rhai caeedig, gyda chyfranogwyr yn cael ymatebion gosod i ddewis o'u plith. Mewn rhai achosion, gallai chyfranogwyr ddewis mwy nag un ymateb.
- 2.9 Caiff cwestiynau demograffig eu cynnwys fel mater o drefn yn Arolwg Omnibws Cymru. Roedd yr arolwg ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- 2.10 Mae tabliadau data llawn o'r arolwg wedi'u darparu i Lywodraeth Cymru; maent ar gael mewn adroddiad technegol ar wahân.
- 2.11 Yn yr adroddiad hwn, mae data wedi'u dadansoddi yn ôl math o ddeiliadaeth. Wrth ddadansoddi'r math o ddeiliadaeth, mae categorïau eiddo a rentir gan y cyngor ac eiddo a rentir gan gymdeithas dai neu gydweithrediaeth dai wedi'u cyfuno er mwyn ffurfio'r categori 'rhent cymdeithasol a chydweithrediaeth dai' er mwyn i ddadansoddiad ystyrlon allu gael ei gynnal. Nid yw nifer bach o ymatebwyr a ddywedodd fod eu cartref yn perthyn i'r categori rhanberchnogaeth (rhent rhannol / prynu rhannol) wedi'u cyfrif fel rhentwyr ac, felly, nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.
- 2.12 Lle nad yw canrannau yn y graffiau yn gwneud cyfanswm o 100%, mae hyn i'w briodoli i wahaniaethau o ran talgrynnu.


⁹ Mae gradd gymdeithasol yn system ddsbarthu sy'n seiliedig ar alwedigaeth a ddatblygwyd i'w defnyddio yn yr Arolwg Cenedlaethol o Ddarllenwyr. [Social Grade | National Readership Survey \(nrs.co.uk\)](https://nrs.co.uk)

3. Canfyddiadau Ymchwil

Proffil tai ymatebwyr

- 3.1 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y math o gartref y mae pob ymatebydd yn ei feddiannu, gan ateb y cwestiwn 'a yw eich cartref...?'
- 3.2 Ym mis Mehefin 2023, roedd 50% o'r ymatebwyr a oedd yn byw mewn cartref rhent yn rhentu gan landlord preifat, roedd 26% yn rhentu gan y cyngor ac roedd 24% yn rhentu gan gymdeithas dai neu gydweithrediaeth dai. Dangosir hyn yn ffigur 3.1.

Ffigur 3.1: Math o denantiaeth eich meddiannaeth bresennol – 'A yw eich cartref...?'



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort


Nodweddion tai

- 3.3 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y cwestiynau canlynol:
- Ers faint rydych yn byw yn eich cartref rhent presennol?
 - Faint o amser a gymerodd i chi ddod o hyd i'ch cartref rhent presennol?
 - Faint o ystafelloedd gwely sydd yn eich cartref rhent?
- 3.4 Y cyfnod mwyaf cyffredin i ymatebwyr ei dreulio yn eu heiddo presennol oedd 5 mlynedd neu fwy (43%). Dangosir hyn yn ffigur 3.2. Roedd 29% wedi bod yn byw yn eu cartref rhent presennol ers pum mlynedd neu fwy ac roeddent yn rhentu gan landlordiaid cymdeithasol a chydweithrediaethau tai. Roedd llai o ymatebwyr a oedd

yn rhentwyr preifat wedi bod yn byw yn eu cartref rhent presennol ers pum mlynedd neu fwy (14%). Dangosir hyn yn ffigur 3.3.

- 3.5 Nododd bron i ddau o bob tri ymatebydd (64%) ei bod wedi cymryd llai na chwe mis iddynt ddod o hyd i eiddo rhent. Fodd bynnag, nododd 12% o'r ymatebwyr ei bod wedi cymryd mwy na blwyddyn iddynt ddod o hyd i'w heiddo presennol, gyda 9% o'r ymatebwyr hyn yn rhentu gan landlord cymdeithasol neu gydweithrediaeth dai a 2% yn rhentwyr preifat. Dangosir hyn yn ffigurau 3.4 a 3.5.
- 3.6 Cymerodd hyd at fis i 21% o'r ymatebwyr ddod o hyd i'w heiddo rhent – roedd 15% o'r ymatebwyr hyn yn rhentu'n breifat ac roedd 6% o'r ymatebwyr a nododd ei bod wedi cymryd hyd at fis iddynt ddod o hyd i'w heiddo rhent, yn rhentu gan landlord cymdeithasol neu gydweithrediaeth dai. Dangosir hyn yn ffigur 3.5.
- 3.7 Fel arfer, roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn rhentu eu cartref presennol yn byw mewn eiddo â dwy ystafell wely (37%) neu dair ystafell wely (40%). Dangosir hyn yn ffigur 3.6.
- 3.8 Roedd cyfrannau tebyg o rentwyr gan landlord cymdeithasol neu gydweithrediaeth dai (21%) a rhentwyr preifat (19%) yn byw mewn eiddo â thair ystafell wely. Dangosir hyn yn ffigur 3.7.


Ffigur 3.2: Hyd yr amser yn yr eiddo presennol – ‘Ers faint rydych yn byw yn eich cartref rhent presennol?’



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort


Ffigur 3.3: Hyd yr amser yn yr eiddo presennol yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘Ers faint rydych yn byw yn eich cartref rhent presennol?’



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort


Ffigur 3.4: Hyd yr amser i ddod o hyd i'ch eiddo presennol – ‘Tua faint o amser a gymerodd i chi ddod o hyd i'ch cartref rhent presennol, o'r adeg y gwnaethoch ddechrau chwilio i'r adeg y gwnaethoch lofnodi'r cytundeb tenantiaeth?’



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort


Ffigur 3.5: Hyd yr amser i ddod o hyd i'ch eiddo presennol yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘Tua faint o amser a gymerodd i chi ddod o hyd i'ch cartref rhent presennol, o'r adeg y gwnaethoch ddechrau chwilio i'r adeg y gwnaethoch lofnodi'r cytundeb tenantiaeth?’



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort


Ffigur 3.6: Nifer yr ystafelloedd gwely yn yr eiddo rhent – ‘Faint o ystafelloedd gwely sydd gennych yn eich cartref rhent?’



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort

Ffigur 3.7: Nifer yr ystafelloedd gwely yn yr eiddo yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘Faint o ystafelloedd gwely sydd gennych yn eich cartref rhent?’



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort

Rhent a newidiadau mewn rhent

3.9 Mae'r adran hon yn nodi canfyddiadau gan ymatebwyr mewn perthynas â'u rhent presennol a newidiadau mewn rhent ers 2020. Yn benodol, mae'n edrych ar ymatebion i'r cwestiynau canlynol:

- Faint o rent rydych yn ei dalu bob mis?
- A yw eich biliau wedi'u cynnwys yng nghyfanswm y rhent?
- Faint o gynnydd sydd wedi bod yn eich rhent ers 2020, os o gwbl?


3.10 Roedd y swm a nodwyd amlaf fel y rhent roedd ymatebwyr yn ei dalu yn yr ystod £401-500 (30%), fel y dangosir yn ffigur 3.8. Roedd 20% o'r ymatebwyr hyn yn rhentu gan landlord cymdeithasol neu gydweithrediaeth dai, nododd llai o ymatebwyr a oedd yn rhentu'n breifat eu bod yn talu £401-500 (11%). Dangosir hyn yn ffigur 3.9.

3.11 Roedd 7% o'r ymatebwyr yn talu rhent o lai na £200 y mis ac roeddent yn rhentu gan landlord cymdeithasol neu gydweithrediaeth dai. Ni nododd yr un ymatebydd a

oedd yn rhentu'n breifat ei fod yn talu rhent o lai na £200 y mis. Dangosir hyn yn ffigur 3.9.

- 3.12 O blith yr holl ymatebwyr, dim ond yn achos 9% roedd biliau wedi'u cynnwys yng nghyfanswm eu rhent, o gymharu ag 88% nad oedd biliau wedi'u cynnwys yn eu rhent. Nododd 3% nad oeddent yn gwybod. Dangosir hyn yn ffigur 3.10.
- 3.13 Nododd cyfrannau tebyg o rentwyr preifat (46%) ac unigolion a oedd yn rhentu gan landlord cymdeithasol neu gydweithrediaeth dai (43%) nad oedd biliau wedi'u cynnwys yn eu rhent. Dangosir hyn yn ffigur 3.11.
- 3.14 Holwyd ymatebwyr a fu'n byw yn eu heiddo rhent presennol ers tair blynedd neu fwy am godiadau rhent diweddar. Nododd 33% o'r ymatebwyr a oedd yn rhentu gan landlord cymdeithasol neu gydweithrediaeth dai fod eu rhent wedi cynyddu hyd at £50, o gymharu â dim ond 8 y cant a oedd yn rhentu'n breifat. Dangosir hyn yn ffigur 3.13.
- 3.15 O'r holl ymatebwyr a oedd wedi bod yn byw yn eu heiddo ers tair blynedd neu fwy, ni fu unrhyw gynnydd yn rhent 19% o'r ymatebwyr a oedd yn rhentwyr preifat, o gymharu â dim ond 3% o'r ymatebwyr a oedd yn rhentu gan landlord cymdeithasol neu gydweithrediaeth dai a oedd wedi bod yn byw yn eu heiddo ers tair blynedd neu fwy a nododd nad oedd eu rhent wedi cynyddu. Dangosir hyn yn ffigur 3.13.


Ffigur 3.8: Rhent a delir bob mis – 'Faint o rent rydych yn ei dalu bob mis?'



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort


Ffigur 3.9: Rhent a delir bob mis yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘Faint o rent rydych yn ei dalu bob mis?’



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort


Ffigur 3.10: Biliau wedi'u cynnwys yn y rhent – ‘A yw eich biliau wedi'u cynnwys yng nghyfanswm y rhent?’



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort


Ffigur 3.11: Biliau wedi'u cynnwys yn y rhent yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘A yw eich biliau wedi'u cynnwys yng nghyfanswm y rhent?’



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort


Ffigur 3.12: Faint o gynydd sydd wedi bod yn eich rhent ers 2020, os o gwbl?



Sylfaen: 205

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort

Ffigur 3.13: Codiad rhent yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘Faint o gynnydd fu yn eich rhent ers 2020, os o gwbl?’



Sylfaen: 205

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort

Bodddhad â mesurau digonolrwydd

3.16 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y mesurau digonolrwydd sy'n ymwneud â'r hawl dynol i gael cartref digonol a pha mor fodlon roedd yr ymatebwyr ar y canlynol:


- Diogelwch deiliadaeth: nid yw tai yn ddigonol os nad oes gan y sawl sy'n eu meddiannu rywfaint o ddiogelwch deiliadaeth sy'n gwarantu gwarchodaeth gyfreithiol rhag troi allan drwy rym, aflonyddu a bygythiadau eraill;
- Argaeledd gwasanaethau, deunyddiau, cyfleusterau a seilwaith: nid yw tai yn ddigonol os nad oes gan y sawl sy'n eu meddiannu ddŵr yfed diogel, cyfleusterau glanweithdra digonol, ynni i goginio, gwres, goleuadau a chyfleusterau storio bwyd neu waredu sbwriel;
- Fforddiadwyedd: nid yw tai yn ddigonol os bydd cost tai yn peryglu neu'n tanseilio mwynhad y meddianwyr o hawliau dynol eraill (e.e bwyd);
- Cyfaneddoldeb: nid yw tai yn ddigonol os nad ydynt yn gwarantu diogelwch corfforol nac yn darparu digon o le, yn ogystal ag amddiffyn y sawl sy'n eu

meddiannu rhag yr oerfel, lleithder, gwres, glaw, y gwynt a bygythiadau eraill i iechyd a pheryglon strwythurol;

- Hygyrchedd: nid yw tai yn ddigonol os nad yw anghenion penodol grwpiau difreintiedig ac wedi'u hymyleiddio yn cael eu hystyried;
- Lleoliad: nid yw tai yn ddigonol os ydynt wedi'u hynysu oddi wrth gyfleoedd gwaith a gwasanaethau (gan gynnwys gwasanaethau gofal iechyd, ysgolion, canolfannau gofal pant a chyfleusterau cymdeithasol eraill neu os ydynt wedi'u lleoli mewn ardaloedd llygredig neu beryglus;
- Annigonolrwydd diwylliannol: nid yw tai yn ddigonol os nad ydynt yn parchu nac yn ystyried mynegiant hunaniaeth ddiwylliannol yn y ffordd y caiff tai eu dylunio.

3.17 Ar y cyfan, roedd yr ymatebwr yn 'fodlon iawn' neu'n 'eithaf bodlon' ar y mesurau digonolrwydd, fel y dangosir yn ffigur 3.14. Fodd bynnag, nododd cyfran fwy o ymatebwyr 'nad oeddent yn fodlon iawn' (21%) ac 'nad oeddent yn fodlon o gwbl' (7%) ar fforddiadwyedd a nododd cyfran lai o ymatebwyr eu bod yn 'fodlon iawn' ar fforddiadwyedd o gymharu â mesurau eraill. Mae hyn yn awgrymu bod fforddiadwyedd yn fater pwysig i'r ymatebwyr.

Ffigur 3.14: Boddhad â mesurau digonolrwydd – 'Pa mor fodlon ydych chi ar bob un o'r agweddau canlynol ar eich cartref rhent presennol?'



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort

Bodddhad ag eiddo rhent a gwella eiddo rhent

3.18 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y cwestiynau canlynol:


- Pa mor fodlon ydych chi ar ansawdd eich llety rhent presennol?
- Nodwch y brif agwedd ar eich cartref rhent presennol yr hoffech ei gweld yn cael ei gwella, os oes un?

3.19 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn 'fodlon iawn' (33%) neu'n 'eithaf bodlon' (46%) ar ansawdd eu cartref rhent presennol a dim ond 13% a nododd nad oeddent yn fodlon, gyda 5% arall yn nodi nad oeddent yn fodlon o gwbl ar ansawdd eu heiddo rhent presennol. Dangosir hyn yn ffigur 3.15.

3.20 Roedd cyfrannau cyfartal o ymatebwyr a oedd yn rhentu gan landlord cymdeithasol neu gydweithrediaeth dai ac yn rhentwyr preifat yn eithaf bodlon ar ansawdd eu heiddo rhent presennol (23% yr un). Dangosir hyn yn ffigur 3.16.

3.21 Pan ofynnwyd iddynt nodi'r brif agwedd ar eu llety rhent yr hoffent ei gweld yn cael ei gwella, yr agwedd a nodwyd amlaf oedd fforddiadwyedd (29%). Dangosir hyn yn ffigur 3.17. Roedd y ffigur hwn wedi'i rannu'n agos rhwng y categorïau o ddeiliadaeth, gydag 16% o'r ymatebwyr a oedd am weld fforddiadwyedd yn cael ei wella yn rhentwyr preifat a 12% yn rhentu gan landlord cymdeithasol neu gydweithrediaeth dai, fel y dangosir yn ffigur 3.18.


Ffigur 3.15: Boddhad â'r eiddo rhent –‘Pa mor fodlon ydych chi ar bob un o'r agweddau canlynol ar eich cartref rhent presennol?’



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort


Ffigur 3.16: Boddhad â'r eiddo rhent yn ôl math o ddeiliadaeth ‘Pa mor fodlon ydych chi ar ansawdd eich llety rhent presennol?’



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort


Ffigur 3.17: Y brif agwedd i'w gwella – ‘Beth yw'r brif agwedd ar eich cartref rhent presennol yr hoffech ei gweld yn cael ei gwella, os oes un?’



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort

Ffigur 3.18: Y brif agwedd i'w gwella yn eich cartref rhent presennol yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘Beth yw'r brif agwedd ar eich cartref rhent presennol yr hoffech ei gweld yn cael ei gwella, os oes un?’




Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort

Cynlluniau ar gyfer tai yn y dyfodol

- 3.22 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar gynlluniau'r ymatebwyr ar gyfer eu cartref yn y dyfodol ac yn cynnwys ymatebion i'r cwestiynau canlynol:
- Pa mor debygol ydych chi o aros yn eich eiddo presennol yn y flwyddyn nesaf?
 - Ydych chi'n gobeithio prynu eich cartref eich hun yn y tair blynedd nesaf?
- 3.23 Dywedodd y mwyafrif (59%) o'r ymatebwyr a oedd yn rhentu eu cartref presennol eu bod yn bwriadu aros yn eu llety rhent presennol am y flwyddyn nesaf a dim ond 13% a ddywedodd eu bod yn ystyried symud a nododd 9% eu bod yn bendant am symud. Dangosir hyn yn ffigur 3.19.
- 3.24 Roedd 32% o'r ymatebwyr a ddywedodd y byddant yn bendant yn aros yn eu cartref rhent am y flwyddyn nesaf yn rhentu gan landlord cymdeithasol neu gydweithrediaeth dai. Roedd 27% o'r ymatebwyr a ddywedodd y byddant yn bendant yn aros yn eu cartref rhent am y flwyddyn nesaf yn rhentwyr preifat. Dangosir hyn yn ffigur 3.20.
- 3.25 Pan gawsant eu holi am eu hawydd i brynu eiddo, dywedodd mwy na hanner yr ymatebwyr nad oeddent yn ystyried prynu eiddo yn y tair blynedd nesaf (54%) tra dywedodd 29% ei bod yn bosibl y byddant yn prynu eiddo a dywedodd 12% y byddant yn bendant yn ceisio prynu eu cartref eu hunain yn y tair blynedd nesaf. Dangosir hyn yn ffigur 3.21. O blith y 54% o'r ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn ystyried prynu eiddo yn y tair blynedd nesaf, roedd 32% ohonynt yn rhentu gan landlord cymdeithasol neu gydweithrediaeth dai ac roedd 27% yn rhentwyr preifat. Dangosir hyn yn ffigur 3.22.
- 3.26 O'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ystyried prynu eu cartref eu hunain 'o bosibl' yn y tair blynedd nesaf, roedd 20% yn rhentwyr preifat ac roedd 9% yn rhentu gan landlord cymdeithasol neu gydweithrediaeth dai. O'r ymatebwyr a ddywedodd y byddent 'yn bendant' yn ceisio prynu eu cartref eu hunain yn y tair blynedd nesaf, roedd 8% o'r grŵp hwn yn rhentwyr preifat ac roedd 4% yn rhentu gan landlord cymdeithasol neu gydweithrediaeth dai . Dangosir hyn yn ffigur 3.22.


Ffigur 3.19: Y tebygolrwydd o aros yn yr eiddo presennol - ‘Pa mor debygol ydych chi o aros yn eich eiddo presennol yn y flwyddyn nesaf?’



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort


Ffigur 3.20: Y tebygolrwydd o aros yn yr eiddo presennol yn ôl math o ddeiliadaeth - ‘Pa mor debygol ydych chi o aros yn eich eiddo presennol yn y flwyddyn nesaf?’



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort


Ffigur 3.21: Awydd i brynu cartref yn y tair blynedd nesaf – ‘Ydych chi’n gobeithio prynu eich cartref eich hun yn y tair blynedd nesaf?’



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort

Ffigur 3.22: Awydd i brynu cartref yn y tair blynedd nesaf yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘Ydych chi’n gobeithio prynu eich cartref eich hun yn y tair blynedd nesaf?’



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort

Cynrychioli barn tenantiaid


3.27 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar ymatebion i'r cwestiynau canlynol:

- Pa mor fodlon ydych chi ar ba mor gyflym yr ymdriniwyd ag unrhyw faterion a godwyd gyda'ch landlord neu'ch asiant gosod eiddo?
- Fel tenant, pa mor fodlon ydych chi bod barn tenantiaid ar rentu a thai yn cael ei chyfleu'n briodol i Lywodraeth Cymru/Awdurdodau Lleol/Sefydliadau Tai?

3.28 Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar ba mor gyflym yr ymdriniwyd ag unrhyw faterion a godwyd gyda'u landlord (28%) neu eu hasiant gosod eiddo (32%), er bod 18% o'r ymatebwyr wedi dweud nad oeddent yn fodlon iawn ar ba mor gyflym yr ymdriniwyd ag unrhyw fater a godwyd a 9% arall wedi dweud nad oeddent yn fodlon o gwbl. Dangosir hyn yn ffigur 3.23.

3.29 Yn yr un modd, dywedodd ymatebwyr eu bod yn 'fodlon iawn' (16%) neu'n eithaf 'bodlon' (34%) bod eu barn ar rentu a thai yn cael ei chyfleu'n briodol i Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol neu Sefydliadau Tai. Dylid nodi bod 27% o'r ymatebwyr wedi rhoi'r ateb 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn. Dangosir hyn yn ffigur 3.25.


Ffigur 3.23: Materion a godwyd gyda'r landlord – ‘Pa mor fodlon ydych chi ar ba mor gyflym yr ymdriniwyd ag unrhyw faterion a godwyd gyda'ch landlord neu'ch asiant gosod eiddo (os yw'n gymwys)?’



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort


Ffigur 3.24: Materion a godwyd gyda'r landlord yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘Pa mor fodlon ydych chi ar ba mor gyflym yr ymdriniwyd ag unrhyw faterion a godwyd gyda'ch landlord neu'ch asiant gosod eiddo (os yw'n gymwys)?’



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort


Ffigur 3.25: Boddhad ymatebwyr â'r ffordd y mae eu barn yn cael ei chyfleu– ‘Fel tenant, pa mor fodlon ydych chi bod barn tenantiaid ar rentu a thai yn cael ei chyfleu'n briodol i Lywodraeth Cymru/Awdurdodau Lleol/Sefydliadau Tai?’



Sylfaen: 358

Ffynhonnell: Omnibws Beaufort

Ffigur 3.26: Cynrychioli barn tenantiaid o fewn Llywodraeth Cymru/Awdurdodau Lleol/Sefydliadau Tai yn ôl math o ddeiliadaeth – ‘Fel tenant, pa mor fodlon ydych chi bod barn tenantiaid ar rentu a thai yn cael ei chyfleu'n briodol i Lywodraeth Cymru/Awdurdodau Lleol/Sefydliadau Tai?’



4. Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau Arolwg Omnibws Cymru Beaufort. Ei nod yw ystyried safbwyntiau ar ddigonolrwydd tai ymhlith pobl sy'n rhentu yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn cyflwyno data yn ôl math o ddeiliadaeth, gan rannu'r ymatebwyr yn ddau gategori, sef 'rhent cymdeithasol a chydweithrediaeth dai' sy'n cynnwys rhentu gan y cyngor, cymdeithas dai neu gydweithrediaeth dai a 'rhentu'n breifat'. Cafwyd 358 o ymatebion i'r arolwg gan bobl sy'n rhentu. Casglwyd yr ymatebion hyn ym mis Mehefin 2023.

Dengys proffil tai'r ymatebwyr mai'r cyfnod mwyaf cyffredin i ymatebwyr ei dreulio yn eu heiddo presennol oedd 5 mlynedd neu fwy (43%). Fel arfer, roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn rhentu eu cartref presennol yn byw mewn eiddo â dwy ystafell wely (37%) neu dair ystafell wely (40%). Roedd y swm a nodwyd amlaf fel y rhent roedd ymatebwyr yn ei dalu yn yr ystod £401-500 (30%). O blith yr holl ymatebwyr, dim ond yn achos 9% roedd biliau wedi'u cynnwys yng nghyfanswm eu rhent, o gymharu ag 88% nad oedd biliau wedi'u cynnwys yn eu rhent.

Pan ofynnwyd iddynt nodi faint o amser a gymerodd iddynt ddod o hyd i eiddo rhent, nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr ei bod wedi cymryd llai na chwe mis (64%). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod 12% o'r ymatebwyr wedi dweud ei bod wedi cymryd mwy na blwyddyn iddynt ddod o hyd i'w heiddo presennol.

Ar y cyfan, roedd ymatebwr yn 'fodlon iawn' neu'n 'eithaf bodlon' ar saith mesur digonolrwydd tai. Adleisiwyd hyn gan y mwyafrif o'r ymatebwyr a nododd eu bod yn 'fodlon iawn' neu'n 'eithaf bodlon' ar ansawdd eu heiddo rhent presennol. Fodd bynnag, fforddiadwyedd oedd y prif fater a nodwyd gan yr ymatebwyr mewn perthynas â digonolrwydd, gydag 28% yn dweud nad oeddent yn fodlon iawn ac nad oeddent yn fodlon o gwbl ar fforddiadwyedd eu heiddo rhent presennol.

Dywedodd y mwyafrif (59%) o'r ymatebwyr a oedd yn rhentu eu cartref presennol eu bod yn bwriadu aros yn eu llety rhent presennol am y flwyddyn nesaf a dim ond 13% a ddywedodd eu bod yn ystyried symud a nododd 9% eu bod yn bendant am symud. Dywedodd mwy na hanner yr ymatebwyr nad oeddent yn ystyried prynu eiddo yn y tair blynedd nesaf (54%) tra dywedodd 29% ei bod yn bosibl y byddant yn prynu eiddo a dywedodd 12% y byddant yn bendant yn ceisio prynu eu cartref eu hunain yn y tair blynedd nesaf.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar ba mor gyflym yr ymdriniwyd ag unrhyw faterion a godwyd gyda'u landlord (28%) neu eu hasiant gosod eiddo (32%), er bod 18% o'r ymatebwyr wedi dweud nad oeddent yn fodlon iawn ar ba mor gyflym

yr ymdriniwyd ag urhyw fater a godwyd a 9% arall wedi dweud nad oeddent yn fodlon o gwbl.

Atodiad A - Holiadur yr Arolwg a ddefnyddiwyd yn Omnibws Beaufort Mehefin 2023

Cwestiynau Tai Digonol Llywodraeth Cymru cytunwyd ar y Cwestiynau Terfynol ar 25 Mai 2023.

Cwestiynau i'w gofyn i'r rhai sy'n rhentu eu cartrefi yn unig.

C1. A yw eich cartref...?

- Yn eiddo i chi yn gyfan gwbl heb forgais
- Yn eiddo i chi gyda morgais
- Yn cael ei rentu gan y cyngor
- Yn cael ei rentu gan gymdeithas dai / cydweithrediaeth dai
- Yn cael ei rentu gan landlord preifat
- yn eiddo rhanberchnogaeth (rhent rhannol / prynu rhannol)

Os ydych yn rhentu eich cartref, parhewch

Os ydych yn berchennog tŷ, peidiwch â pharhau

C2. Faint o ystafelloedd gwely sydd gennych yn eich cartref rhent?

- Un
- Dwy
- Tair
- Pedair
- Pump
- Mwy na phump

C3. Ers faint rydych yn byw yn eich cartref rhent presennol?

- Hyd at 6 mis
- Rhwng 6 a 12 fis
- Mwy na blwyddyn ond llai na 2 flynedd Ewch i Gwestiwn 5
- Mwy na 2 flynedd ond llai na 3 blynedd
- Mwy na 3 blynedd ond llai na 4 blynedd

- Mwy na 4 blynedd ond llai na 5 mlynedd Ewch i Gwestiwn 4
- 5 mlynedd neu fwy
- Ddim yn gwybod

Os yw'n byw yn yr eiddo presennol ers 3 blynedd neu fwy, gofynnwch y cwestiwn nesaf

C4. Faint o gynnydd sydd wedi bod yn eich rhent ers 2020, os o gwbl?

- Ni fu unrhyw gynnydd
- Mae wedi cynyddu hyd at £50 y mis
- Mae wedi cynyddu rhwng £51 a £100 y mis
- Mae wedi cynyddu rhwng £101 a £200 y mis
- Mae wedi cynyddu fwy na £200 y mis
- Gwell Gennyf Beidio â Dweud
- Ddim yn gwybod

C5. Tua faint o amser a gymerodd i chi ddod o hyd i'ch cartref rhent presennol, o'r adeg y gwnaethoch ddechrau chwilio i'r adeg y gwnaethoch lofnodi'r cytundeb tenantiaeth?

- Hyd at fis
- Rhwng 1 a 2 fis
- Rhwng 3 a 4 mis
- Rhwng 5 a 6 mis
- Rhwng 7 a 12 mis
- Dros flwyddyn
- Ddim yn gwybod

C6. Pa mor debygol ydych chi o aros yn eich eiddo rhent presennol yn y flwyddyn nesaf?

- Byddaf yn bendant yn aros yn fy nghartref rhent presennol
- Mae'n bosibl y byddaf yn aros yn fy nghartref rhent presennol
- Mae'n bosibl y byddaf yn symud o'm cartref rhent presennol
- Byddaf yn bendant yn symud o'm cartref rhent presennol
- Ddim yn gwybod

C7. Ydych chi'n gobeithio prynu eich cartref eich hun yn y tair blynedd nesaf?

- Ydw – yn bendant

- Ydw – o bosibl
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

C8a. Pa mor fodlon ydych chi ar ansawdd eich llety rhent presennol?

- Bodlon iawn
- Eithaf bodlon
- Ddim yn fodlon iawn
- Ddim yn fodlon o gwbl
- Ddim yn gwybod

C8b. Pam rydych chi'n dweud hynny? Ysgrifennwch eich ateb

C9. Pa mor fodlon ydych chi ar ba mor gyflym yr ymdriniwyd ag unrhyw faterion a godwyd gyda'ch landlord neu'ch asiant gosod (os yw'n gymwys)?

- Bodlon iawn
- Eithaf bodlon
- Ddim yn fodlon iawn
- Ddim yn fodlon o gwbl
- Ddim yn gymwys – dwi ddim wedi cael unrhyw broblemau
- Dwi ddim yn gwybod

C10. Fel tenant, pa mor fodlon ydych chi bod barn tenantiaid ar rentu a thai yn cael ei chyfleu'n briodol i Lywodraeth Cymru/Awdurdodau Lleol/Sefydliadau Tai?

- Bodlon iawn
- Eithaf bodlon
- Ddim yn fodlon iawn
- Ddim yn fodlon o gwbl
- Ddim yn gwybod

C11. Pa mor fodlon ydych chi ar bob un o'r agweddau canlynol ar eich cartref rhent presennol?

Y rhestr i'w threfnu ar hap

	Bodlon iawn	Eithaf bodlon	Ddim yn fodlon iawn	Ddim yn fodlon o gwbl	Ddim yn gwybod
Diogelwch deiliadaeth: hynny yw diogelwch rhag troi allan drwy rym, aflonyddu a bygythiadau eraill					
Argaeledd gwasanaethau, deunyddiau, cyfleusterau a seilwaith: hynny yw, bod gennych ddŵr yfed diogel; cyfleusterau glanweithdra digonol e.e. toiledau ac ystafelloedd ymolchi; ynni i goginio, gwres a goleuadau; cyfleusterau storio bwyd digonol; cyfleusterau digonol ar gyfer gwaredu sbwriel/gwasttraff					
Fforddiadwyedd: hynny yw, eich bod yn gallu fforddio'r rhent					
Cyfaneddoldeb: hynny yw, bod gennych le diogel i fyw ynddo, sy'n ddigon mawr ac yn eich diogelu rhag yr oerfel, lleithder, gwres, glaw, gwynt a bygythiadau eraill i iechyd a rhag peryglon strwythurol					
Hygyrchedd: hynny yw, ei fod yn diwallu unrhyw anghenion penodol sydd gennych					
Lleoliad: hynny yw, mae digon o gyfleoedd gwaith, gwasanaethau gofal iechyd, ysgolion, canolfannau gofal					

plant a chyfleusterau cymdeithasol eraill yn yr ardal; neu nad yw wedi'i leoli mewn ardal lygredig na pheryglus					
Digonolrwydd diwylliannol: hynny yw, ei fod yn parchu ac yn ystyried hunaniaeth ddiwylliannol a ffyrdd o fyw (e.e. normau crefyddol neu ddiwylliannol y gall fod ganddynt sawl cenhedlaeth yn byw yn yr un llety)					

C12. Beth yw'r brif agwedd ar eich cartref rhent presennol yr hoffech ei gweld yn cael ei gwella, os oes un? Un ymateb

- Diogelwch deiliadaeth: hynny yw diogelwch rhag troi allan drwy rym, aflonyddu a bygythiadau eraill
- Argaeledd gwasanaethau, deunyddiau, cyfleusterau a seilwaith: hynny yw, bod gennych ddŵr yfed diogel; cyfleusterau glanweithdra digonol e.e. toiledau ac ystafelloedd ymolchi; ynni i goginio, gwres a goleuadau; cyfleusterau storio bwyd digonol; cyfleusterau digonol ar gyfer gwaredu sbwriel/ gwastraff
- Fforddiadwyedd: hynny yw, eich bod yn gallu fforddio'r rhent
- Cyfaneddoldeb: hynny yw, bod gennych le diogel i fwy, sy'n ddigon mawr ac yn eich diogelu rhag yr oerfel, lleithder, gwres, glaw, y gwynt a bygythiadau eraill i iechyd a rhag peryglon strwythurol
- Hygyrchedd: hynny yw, ei fod yn diwallu unrhyw anghenion penodol sydd gennych
- Lleoliad: hynny yw, bod digon o gyfleoedd gwaith, gwasanaethau gofal iechyd, ysgolion, canolfannau gofal plant a chyfleusterau cymdeithasol eraill yn yr ardal; neu nad yw wedi'i leoli mewn ardal lygredig na pheryglus

- Digonolrwydd diwylliannol: hynny yw, mae'n parchu ac yn ystyried mynegiant hunaniaeth ddiwylliannol a ffyrdd o fyw (e.e. normau crefyddol neu ddiwylliannol y gall fod ganddynt sawl cenhedlaeth yn byw yn yr un llety).
- Dim un o'r rhain/ dim byd
- Arall (ysgrifennwch eich ateb) _____
- Ddim yn gwybod

C13. Faint o rent rydych yn ei dalu bob mis?

- Hyd at £200
- Rhwng £201 a £300
- Rhwng £301 a £400
- Rhwng £401 a £500
- Rhwng £501 a £600
- Rhwng £601 a £700
- Rhwng £701 a £800
- Rhwng £801 a £900
- Rhwng £901 a £1,000
- Rhwng £1,001 a £1,500
- Dros £1,500
- Gwell Gennyf Beidio â Dweud
- Ddim yn gwybod

C14. A yw eich biliau wedi'u cynnwys yng nghyfanswm y rhent?

- Ydyn
- Nac ydyn
- Ddim yn gwybod

C15. P'un o'r canlynol sy'n cynrychioli incwm blynyddol eich aelwyd orau, cyn didyniadau ar gyfer treth ac Yswiriant Gwladol? Cofiwch y bydd yr atebion a rowch yn gwbl gyfrinachol.

- Llai na £9,999

- £10,000 - £19,999
- £20,000 - £29,999
- £30,000 - £39,999
- £40,000 - £49,999
- £50,000 - £59,999
- £60,000 - £74,999
- £75,000 - £99,999
- £100,000 neu fwy
- Gwell Gennyf Beidio â Dweud
- Ddim yn gwybod